

Kate Biggs
Cyfarwyddwr, Polisi Cynnwys
E-bost: commercialrelicensing@ofcom.org.uk

29 Hydref 2021

Llythyr agored ynghylch adroddiad Ofcom at yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 229 Deddf Cyfathrebiadau 2003

Mae Adran 229 y Ddeddf Cyfathrebiadau ('y Ddeddf') yn gosod dyletswydd ar Ofcom i gyflwyno adroddiad ('yr adroddiad a.229') i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn 30 Mehefin 2022 gyda'r disgwyliad y bydd cylch trwyddedu newydd ar gyfer gwasanaethau Channel 3 a 5.

Daw'r trwyddedau presennol i ben ar 31 Rhagfyr 2024, a disgwylir i gyfnod newydd o ddeng mlynedd ddechrau ar 1 Ionawr 2025. Mae pob un o'r 16 trwydded Sianel 3 wedi'u dal naill ai gan is-gwmnïau ITV plc neu STV plc.¹ Mae trwydded Channel 5 wedi'i dal gan Channel 5 Broadcasting Limited (is-gwmni ViacomCBS Inc).

Y cam cyntaf yn y broses drwyddedu yw'r adroddiad a.229. Yn hyn o beth, mae'n ofynnol i ni asesu gallu deiliaid trwydded presennol Channel 3 a Channel 5 i "gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus... am gost... sy'n fasnachol gynaliadwy."

Os byddwn, yn dilyn ein hasesiad, o'r farn y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol arfer eu pwerau naill ai i atal adnewyddu neu i ddileu neu ddiwygio unrhyw un o'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus presennol a bennir yn y Ddeddf, mae'n rhaid i ni gynnwys argymhelliad i'r perwyl hwnnw.

Argymhellion ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus

Ym mis Gorffennaf 2021, gwnaethom gyhoeddi ein [hargymhellion i Lywodraeth y DU](#) ar ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus ('PSM'). Yn y ddogfen hon, bu i ni ddweud bod angen ailwampio'r ddeddfwriaeth bresennol i adlewyrchu arferion cynulleidfaoedd a thechnoleg, y mae'r ddau ohonynt yn newid. Bu i ni ddweud hefyd bod angen moderneiddio'r rhwymedigaethau ar Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus i gynnwys gofynion sy'n cwmpasu gwasanaethau teledu darlledu ac ar-lein. Bydd angen i ddarparwyr PSM ddangos hyblygrwydd wrth arloesi ac ymateb yn effeithiol i newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a thechnoleg.

¹ Mae is-gwmnïau ITV plc yn dal y drwydded brewcwast genedlaethol a 13 o'r 15 trwydded ranbarthol: (Anglia ITV (Dwyrain Lloegr), Border ITV, Central ITV (Dwyrain, Gorllewin, De Canolbarth Lloegr), Channel Television (Ynysoedd y Sianel), Granada ITV (Gogledd-orllewin Lloegr ac Ynys Manaw), London ITV (Llundain yn ystod yr wythnos), LWT (Llundain ar y penwythnos), Meridian ITV (De a De-ddwyrain Lloegr), Tyne Tees ITV (Gogledd-ddwyrain Lloegr), Ulster Television (Gogledd Iwerddon), ITV yng Nghymru, Westcountry ITV (De-orllewin a Gorllewin Lloegr) a Yorkshire ITV (Swydd Efrog a Swydd Lincoln)). Mae is-gwmnïau STV plc yn dal dwy o'r 15 trwydded ranbarthol: STV Central (Canolbarth yr Alban) a STV North (Gogledd yr Alban).

Fe wnaethom argymhellion a fyddai, pe bai'r Llywodraeth yn eu mabwysiadu, yn berthnasol i drwyddedu Channel 3 a 5, gan gynnwys:

- Cyflwyno set ddiwygiedig o amcanion PSM i gefnogi pontio o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ('PSB') i PSM ac amcan newydd i gefnogi'r economi greadigol.
- Sicrhau argaeledd ac amlygrwydd cyffredinol cynnwys gwasanaethau cyhoeddus ar-alw ar draws yr holl brif wasanaethau a llwyfannau teledu.

Rydym yn cydnabod y bydd ein hargymhellion, os cânt eu datblygu gan Lywodraeth y DU, yn effeithio ar brosesau trwyddedu yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU wrth iddi ystyried ein hargymhellion.

Ein hadroddiad adran 229

Yn y cyfamser, o dan y fframwaith presennol mae'n ofynnol i ni roi ein barn yn yr adroddiad a.229 ar allu'r trwyddedeion presennol i gyfrannu at y dibenion gwasanaeth cyhoeddus² am gost sy'n fasnachol gynaliadwy.

Er mwyn penderfynu a yw'r trwyddedau'n fasnachol gynaliadwy, mae angen i ni asesu'r canlynol dros gyfnod nesaf y drwydded:

- gwerth y manteision presennol sy'n gysylltiedig â dal trwydded PSB; a'r
- costau sy'n gysylltiedig â dal trwydded PSB yn ychwanegol at y costau a fyddai'n cael eu hysgwyddo heb y rhwymedigaethau PSB presennol (y costau cyfle).

Y prif fanteision sy'n gysylltiedig â'r trwyddedau yn ystod cyfnod nesaf y drwydded (os na fydd unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth) fydd yr hawl i gapasiti DTT neilltuedig neu a roddwyd a'r hawl i amlygrwydd canllaw rhaglenni electronig priodol ar gyfer prif sianelau teledu Channel 3 a Channel 5.

Cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y gwasanaethau Channel 3 a Channel 5 trwyddedig yw darparu ystod o raglennu o ansawdd uchel ac amrywiol. Mae Ofcom yn gosod cwtâu ar gyfer mathau penodol o raglennu a chynhyrchu y mae'n rhaid i'r trwyddedeion eu bodloni. Mae'r rhwymedigaethau penodol presennol sy'n gysylltiedig â'r trwyddedau Channel 3 a Channel 5 wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

Gofyniad trwydded	Channel 3	Channel 5
Newyddion	<ul style="list-style-type: none">• 365 awr y flwyddyn (125 yn yr oriau brig)✓ • 60 munud y diwrnod yn ystod yr wythnos yn y drwydded Brecwast	<ul style="list-style-type: none">• 280 awr y flwyddyn (20 yn yr oriau brig)✓
Materion cyfoes	<ul style="list-style-type: none">• 43 awr y flwyddyn (35 yn yr oriau brig)✓ • 1 awr yr wythnos yn y drwydded Brecwast	<ul style="list-style-type: none">• 130 awr y flwyddyn (10 yn yr oriau brig)✓

² Fel y'i diffinnir yn Adran 264 y Ddeddf.

	<ul style="list-style-type: none"> 78 awr y flwyddyn (35 yn yr oriau brig) yn y drwydded Border 	
Rhaglennu rhanbarthol (newyddion a heb fod yn newyddion)	✓ Yn amrywio fesul trwydded	Dd/B
Rhaglennu gwreiddiol	<ul style="list-style-type: none"> 65% (85% yn yr oriau brig) 80% yn y drwydded Brecwast 	✓ 50% (45% yn yr oriau brig)
Cyfran ac ystod y rhaglenni fesul gwariant ac oriau a wneir y tu allan i'r M25	<ul style="list-style-type: none"> 35% y tu allan i'r M25 Dd/B i'r drwydded Brecwast 	✓ 10% y tu allan i'r M25
25% (o raglennu) wedi'i ddyrannu i gynyrchiadau annibynnol	✓	✓
Llunio, adolygu a chydymffurfio â chod comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol	✓	✓
Sicrhau bod trefniadau rhwydweithio cymeradwy mewn grym	✓ Ddim ar gyfer y drwydded Brecwast	Dd/B
Isdeitlo, arwyddo a disgrifiadau sain ('AD')	✓ 90% wedi'i isdeitlo, 10% DS, 5% wedi'i arwyddo	✓ 80% wedi'i isdeitlo, 10% DS, 5% wedi'i arwyddo
Dyddiau ac amser darlledu	<ul style="list-style-type: none"> 7 diwrnod/wythnos ac eithrio 6am-9.25am³ Brecwast: 6am-9.25am 7 diwrnod/wythnos 	Dd/B
Talu ffioedd trwydded i Ofcom	✓	✓
Cyfraniadau i'r Archif Deledu Genedlaethol	✓	✓
Rhaid cynnig rhwymedigaethau	✓	✓

Mae'r drwydded hefyd yn nodi nifer o rwymedigaethau eraill ar y trwyddedeion, megis gofynion i gydymffurfio â chyfarwyddiadau a bennir gan Ofcom ynghylch munudau hysbysebu a safonau nawdd.

Yn ein [hasesiad diwethaf yn 2013](#), bu i ni ystyried bod y trwyddedau'n fasnachol gynaliadwy os yw gwerth y buddion yn fwy na'r costau ychwanegol a ysgwyddir i gyflawni rhwymedigaethau'r drwydded, yn ychwanegol at yr hyn y byddai'r trwyddedai yn ei wneud pe na bai ganddo drwydded PSB.

Dros y misoedd nesaf, byddwn am ddatblygu ein barn ar y materion hyn. Bwriad y llythyr hwn yw gofyn am wybodaeth i'n cefnogi yn hyn o beth ac wrth lunio ein hasesiad ar gyfer yr adroddiad a.229. Gofynnir i chi ateb y cwestiynau canlynol:

³ Mae gan drwyddedau ITV Llundain yn ystod yr wythnos ac ar y penwythnos oriau gwahanol. ITV Llundain yn ystod yr wythnos: 9.25am ddydd Llun i 5.15pm ddydd Gwener ac eithrio rhwng 6.00am a 9.25am bob dydd. ITV Llundain ar y penwythnos: 5.15pm ddydd Gwener i 6.00am ddydd Llun, ac eithrio rhwng 6.00am a 9.25am.

1. Gan feddwl am y manteision a'r rhwymedigaethau presennol dros y cyfnod trwyddedu nesaf (2025-2034):
 - a. Pa werth fyddech chi'n ei roi ar y manteision sy'n gysylltiedig â dal trwyddedau Channel 3 a Channel 5 (fel y bo'n berthnasol)?
 - b. Pa gost cyfle fyddech chi'n ei rhoi ar y rhwymedigaethau presennol sy'n gysylltiedig â dal trwyddedau Channel 3 a Channel 5?
 - c. Pa rai o'r rhwymedigaethau hyn, yn eich barn chi, sy'n gosod y costau cyfle mwyaf? Nodwch unrhyw rwymedigaethau nad ydynt wedi'u rhestru yn y tabl uchod ac sydd, yn eich barn chi, yn gosod costau cyfle sylweddol.
 - d. Pa ffactorau yn eich barn chi fydd yn cael yr effaith fwyaf ar werth manteision neu gost cyfle rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r trwyddedau Channel 3 a Channel 5 yn ystod cyfnod nesaf y drwydded?
2. O ystyried y manteision presennol, a ydych o'r farn y bydd y rhwymedigaethau sydd ar y trwyddedeion Channel 3 a Channel 5 presennol yn fasnachol gynaliadwy am y cyfan neu ran o gyfnod nesaf y drwydded? Esboniwch pam neu pam ddim.
3. Os ydych o'r farn na fydd rhwymedigaethau presennol yn gynaliadwy ar gyfer y cyfan neu ran o gyfnod nesaf y drwydded, amlinellwch lefel y rhwymedigaethau yr ydych yn ystyried y bydd modd i'r deiliaid trwydded Channel 3 a Channel 5 eu darparu ar gyfer y cyfan neu ran o gyfnod nesaf y drwydded ar sail sy'n fasnachol gynaliadwy. Esboniwch pam yr ydych o'r farn y byddai'r rhwymedigaethau hyn yn fasnachol gynaliadwy, nodwch sut y byddent yn wahanol i'r rhwymedigaethau presennol a pham y byddent yn galluogi'r trwyddedai i gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yng nghyfnod nesaf y drwydded.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau, y dylid eu hanfon drwy e-bost at:

commercialrelicensing@ofcom.org.uk, yw **14 Ionawr 2022**.

Yn gywir,



Kate Biggs